Gwasanaeth Gwirfoddol
BIP Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# GWIRFODDOLWR CROESAWYDD WARD

Profiad y Claf

**Rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn i wirfoddoli yn y rôl hon**

## Lleoliad
*Mynedfeydd dynodedig ar safleoedd Ysbyty o fewn y BIP*

## Yn adrodd i
*Rheolwr/cydlynydd ardal a nodwyd*

## Yn atebol i
*Rheolwr Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol*

## Ymrwymiad Amser
*2 awr yr wythnos ad hoc*
*Dyddiau'r wythnos 5pm - 8pm*
*Penwythnosau 10am - 8pm*

## Gwiriadau Gofynnol
*DBS (Gwiriad Cofnodion Troseddol)*
*Gwiriad Iechyd Galwedigaethol*
*Dau Eirda*

## Treuliau
*Caiff treuliau teithio i/o leoliadau ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu*

## GOFYNION PERSONOL
- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr Bwrdd Iechyd y Brifysgol bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

## AMLINELLIAD O'R DYLETSWYDDAU
Darparu presenoldeb tawel, cyfeillgar a chroesawgar i ymwelwyr a chleifion yn ardal y ward. Cynorthwyo staff yn ystod amseroedd ymweld trwy fonitro'r drysau a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf gan staff i ymwelwyr. Bod yn bwynt cyswllt cyntaf i ymwelwyr, a'u cyfeirio at gymorth priodol. Cynnig lluniaeth.

***Mae'r rôl hon yn gofyn am ymrwymiad rheolaidd i wirfoddoli bob wythnos i ddod yn gyfarwydd â'r ward ac ymwelwyr***

## PRIF DASGAU
- Sicrhau bod mynediad ymwelwyr i'r ward yn unol â'r gofrestr ymwelwyr ward gymeradwy a ddarperir gan staff.
- Darparu presenoldeb tawel, cysurlon a chroesawgar i ymwelwyr a staff y ward
- Dangos ymwelwyr o amgylch y ward yn ôl yr angen, a mynd gyda nhw os oes angen
- Helpu i ateb ymholiadau priodol
- Uwchgyfeirio problemau neu gwestiynau a nodwyd at y gefnogaeth briodol
- Atgoffa ymwelwyr o weithdrefnau hylendid dwylo, a mesurau rheoli heintiau sy'n benodol i'r ward
- Cynorthwyo i ddarparu diodydd poeth neu oer i ymwelwyr, neu eu cyfeirio at gyfleusterau ar y ward
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Pholisi Ymweld y ward

## HYFFORDDIANT A CHYMORTH
Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â chynllun Hyfforddi a Sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â lefel briodol o hyfforddiant codi a chario a thrais ac ymddygiad ymosodol.

## FFINIAU PWYSIG

- Nid yw'r rôl hon yn cynnwys:
- Therapi chwarae, eiriolaeth, ymyrraeth feddygol, tynnu sylw neu gwnsela. Nid yw'r rôl hon yn cynnwys cysgodi staff clinigol, na chyflawni unrhyw dasgau clinigol neu ryngweithio clinigol.

***Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gynhwysol gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol a byddant yn cael cynnig goruchwyliaeth ac arweiniad parhaus.***

## MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

Mae'r rôl hon yn cynnig:

- Profiad o Wasanaethau Plant o fewn amgylchedd yr ysbyty
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned
- Cyfle i ddatblygu sgiliau personol, profiad, a sgiliau cyfathrebu
- Profiad o weithio mewn tîm

Geirda ar gais (ar gael ar ôl i chi wirfoddoli am chwe mis yn unig)

## MANYLEB Y PERSON

| Meini prawf | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a dilyn gweithdrefnau | X | |
| Profiad o weithio mewn lleoliad gofal iechyd | | X |
| Sgiliau cyfathrebu da | X | |
| Gallu siarad Cymraeg | | X |
| Gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm | X | |
| Dibynadwy a phrydlon | X | |
| Profiad o wirfoddoli | | X |
| Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant | X | |
| Ar gael i wirfoddoli am o leiaf 2 awr yr wythnos ar yr amseroedd gofynnol | X | |
| Brwdfrydig a llawn cymhelliant | X | |